Rhifyn 1, Chwefror 09 Pris: 75c

Cylchgrawn Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

UCAC Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

yr Athro

Rhifyn Arbennig: Materion Cyflogaeth Athrawon

Mae materion cyflogaeth yn effeithio ar bob un ohonom, ac mae'n faes sy'n newid yn ddi-baid ac yn syfrdanol o gyflym – yn enwedig felly ym myd addysg.

Un o brif gyfrifoldebau undeb, fel UCAC, yw bod yn arbenigwr ar y rheolau diweddaraf, er mwyn rhoi cyngor i'w aelodau ar faterion cyflogaeth. Fel undeb rydym am sicrhau bod ein haelodau:

- yn ymwybodol o'ch hawliau, yn ogystal â'r disgwyliadau arnoch
- yn cael eich trin yn deg, ac yn unol â'r gyfraith
- yn gallu troi at yr undeb am gefnogaeth a chynrychiolaeth

Yn y rhifyn arbennig hwn, amlinellwn rai materion sy'n ymwneud â chyflogaeth athrawon sydd wedi newid yn ddiweddar, neu sy'n debygol iawn o effeithio arnoch chi a'ch cydweithwyr.

Cofiwch, mae UCAC yma i'ch cynghori a'ch cynrychioli. Felly os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am y materion hyn, neu wybodaeth i'w rhannu, cysylltwch â'ch Swyddog Maes:

Dilwyn Roberts-Young, Swyddog Maes y De
Eryl Owain, Swyddog Maes y Gogledd
01970 639950 / ucac@athrawon.com

Y cyfnod diogelu lwfansau wedi dod i ben. Beth nesaf?

Daeth taliadau CAD (Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu / *TLR – Teaching and Learning Responsibility payments*) i fodolaeth yn 2006, gan ddisodli, dros gyfnod, y lwfansau gynt.

Yn ystod y cyfnod o Ebrill 2006 i Ragfyr 2008, roedd trefniadau diogelu cyflog ar gyfer y sawl a fyddai'n colli lwfansau neu'n derbyn taliad CAD o lai o werth. Daeth y cyfnod diogelu i ben ar 31 Rhagfyr 2008 ac mae'n rhaid i ysgolion weithredu eu strwythur newydd o 1 Ionawr 2009 ymlaen, os na wnaethant eisoes.

Dim CAD yn lle lwfans? Beth nesaf?
Mewn rhai achosion, mae'n fater syml gan fod y cyfrifoldebau hefyd yn dod i ben, e.e. cyfrifoldeb am lechyd a Diogelwch yn yr ysgol, sydd wedi'i drosglwyddo i aelod o staff nad yw'n athro.

Mae'r sefyllfa'n fwy cymhleth i'r athrawon hynny sydd â chyfrifoldebau fel Pennaeth Adran neu Reolwr Canolfan, neu'r rhai sydd â chyfrifoldeb am faes cwricwlaidd mewn ysgol gynradd, gan fod y cyfrifoldebau'n rhan annatod o'r swydd. Mewn achosion o'r fath, ni all UCAC eich cynghori i beidio gwneud y gwaith, gan fod yna bosibilrwydd cryf y byddech yn gweithredu "*in breach of contract*". Mae cyfreithwyr UCAC yn ymchwilio ymhellach i hyn.

Gall UCAC ond parhau i ddadlau ar eich rhan, yn lleol ac yn genedlaethol. Byddwn yn codi materion am anghysonderau ac anhyblygrwydd o ran y meini prawf gyda'r *School Teachers' Review Body* yn Llundain.

Yn y cyfamser, cofiwch:

- Rhaid sicrhau bod unrhyw broses o ailstrwythuro pellach yn dilyn y drefn a nodir yn y ddogfen wreiddiol (*Canllawiau ar Adolygu Strwythurau Staffio Ysgolion, cylchlythyr 32/2005 gan Lywodraeth y Cynulliad*). Mae hyn yn cynnwys rheidrwydd i drafod gyda chi a'ch undeb.
- Os ydych eisoes wedi derbyn taliad CAD ac yn ei golli oherwydd ailstrwythuro newydd, bydd rhaid diogelu'r swm am dair blynedd, yn dilyn y trefniadau arferol ar gyfer diogelu tâl.
- Os byddwch chi'n gwirfoddoli i golli'r taliad, ni fydd y swm yn cael ei ddiogelu.
- Er bod meini prawf llym ynghylch rhoi lwfans CAD am gyfrifoldebau, mae'r *School Teachers' Pay and Conditions Document* (tud. 168, para. 65) hefyd yn nodi:

  Teachers are expected to contribute, both orally and in writing as appropriate, to curriculum development by sharing their professional expertise with colleagues and advising on effective practice. This does not mean that they can be expected to take on the responsibility of, and accountability for, a subject area or to manage other teachers without appropriate additional payment. Responsibilities of this nature should be part of a post that is in the leadership group or linked to a post which attracts a TLR on the basis set out in paragraph 22.

Cysylltwch ag UCAC am gefnogaeth ac er mwyn i ni allu dadlau ar eich rhan.

t2 a t3 Materion Cyflogaeth t4 Newyddion

Ydych chi'n dal i gyflawni tasgau gweinyddol a chlerigol?

Nid oes disgwyl i athrawon gwblhau tasgau gweinyddol neu glerigol yn rheolaidd (*routine*). Yn ôl y *School Teachers' Pay and Conditions Document* nid oes rhaid i dasg fod yn rhywbeth y cyflawnir yn aml i'w ystyried yn *routine,* e.e. coladu adroddiadau disgyblion.

Erbyn hyn, staff gweinyddol ac ategol ddylai fod yn gyfrifol am gyflawni'r fath dasgau. Dyma un o'r newidiadau cyntaf daeth yn sgil y cytundeb i leihau llwyth gwaith athrawon. Mae'r rheol yn berthnasol i *bob* athro, gan gynnwys rhai ar gytundebau parhaol, tymor penodol a dros dro, athrawon sydd ar gytundebau rhan-amser a'r rhai sydd yn aelodau o'r grŵp arweinyddiaeth.

I gael rhestr o'r math o dasgau sydd dan sylw ewch i wefan UCAC neu cysylltwch â'r brif swyddfa i ofyn am boster i arddangos yn eich ysgol. Nid canllawiau dewisol yw'r rhain.

Beth yw'r sefyllfa o ran arolygu arholiadau?

Ni ddylai athrawon arolygu arholiadau allanol. Mae'n rhesymol i ddisgwyl i'r athro pwnc fod yn bresennol ar ddechrau arholiad allanol i sicrhau nad oes problemau gyda'r papur arholiad, ond nid oes angen i'r athro fod yn bresennol am gyfnod estynedig.

Mae presenoldeb athro mewn arholiad i ddigwydd gyda chytundeb y Pennaeth. Ni ddylai athrawon arolygu arholiadau mewnol os yw amserlen arferol yr ysgol wedi'i haddasu er mwyn creu sefyllfa ffug arholiadau allanol.

Perthynas gyda disgyblion

Yn ddiweddar mae mwy nag un opera sebon wedi cynnwys stori am athro'n cael perthynas gyda disgybl. Ond nid opera sebon mo bywyd!

Mae'n hollbwysig i athrawon gadw perthynas broffesiynol gyda'u disgyblion, gan gofio eu bod mewn sefyllfa o ofalu amdanynt ac o fod yn gyfrifol am eu diogelwch. Rhaid bod yn wyliadwrus rhag mynd yn or-gyfeillgar; gall ymddygiad o'r fath achosi problemau disgyblaeth yn ogystal â chael ei gamddehongli gan y disgybl.

O dan Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol (*Sex Offenders Act* (Diwygio) 2000), mae hi'n drosedd i berson sydd dros 18 oed gael perthynas rywiol, neu ymddwyn yn rhywiol, gyda pherson sydd o dan 18 oed, os ydynt mewn sefyllfa o ymddiriedaeth (*position of trust*) â'r person ifanc.

Nid oes rhaid addysgu'r disgybl yn uniongyrchol i fod mewn sefyllfa o ymddiriedaeth. Mae'n ddigonol i fod yn aelod o staff yr ysgol.

Mae'r gosb am y drosedd o gamddefnyddio ymddiriedaeth (*abuse of trust*) yn cynnwys y posibilrwydd o ddedfryd estynedig – gellir ychwanegu cyfnod ar drwydded at derfyn cyfnod mewn carchar. Os yw'r troseddwr dros 20 oed, daw o dan ofyniad hysbysiad (*requirement of notification*) Deddf Troseddwyr Rhywiol 1997.

Mewn achos o gŵyn neu gyhuddiad

1. Cysylltwch yn syth gydag un o swyddogion UCAC.
2. Peidiwch â gwneud unrhyw ddatganiad.
3. Peidiwch â chyfaddef unrhyw beth.
4. Peidiwch â cheisio cymodi, hyd yn oed gyda chefnogaeth neu anogaeth y Pennaeth.

Mae'n hollbwysig i chi dderbyn cyngor gan UCAC cyn gweithredu.

Amser CPA. Ydych chi'n cael eich siâr?

Ers Medi 2005, mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu cyfnod sydd yn cyfateb i 10% o'ch amser dysgu fel amser digyswllt ar gyfer **Cynllunio, Paratoi ac Asesu**. Mae'r 10% yn isafswm. Os oeddech eisoes yn derbyn mwy na hyn o amser digyswllt cyn Medi 2005 ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu, ni ddylech chi dderbyn llai o amser nawr.

Mae'r amser CPA yn ychwanegol at y 10% o'r amser digyswllt a neilltuwyd ar gyfer athro ar gyfnod sefydlu, ac unrhyw amser digyswllt arall y byddech fel rheol yn ei dderbyn, e.e. amser arweinyddiaeth.

Mae'r rheol yn berthnasol i *bob* athro, gan gynnwys rhai ar gytundebau parhaol, tymor penodol a dros dro, athrawon sydd ar gytundebau rhan-amser a'r rhai sydd yn aelodau o'r grŵp arweinyddiaeth.

Mae'n rhaid i'r amser CPA fod:

- mewn blociau amser heb fod yn llai na 30 munud
- wedi ei ddiogelu o fewn amserlen arferol yr ysgol h.y. bob wythnos neu bythefnos
- yn ystod oriau dysgu arferol yr ysgol (nid wedi ei ychwanegu at ddechrau neu at ddiwedd y diwrnod ysgol)

Ni ddylech warchod unrhyw ddosbarthiadau na chyflawni dyletswyddau eraill o fewn yr amser digyswllt hwn. Ni ddylai unrhyw un arall benderfynu ar eich rhan beth yw eich blaenoriaethau am y cyfnod. Mae hawl gennych i ddewis cydweithio gydag aelodau eraill o staff ar adegau i gyflawni gwaith ar y cyd – ond eich dewis chi yw hyn.

Ni ddylai fod disgwyl i chi gynllunio, paratoi ac asesu ar gyfer y cyfnod pan nad yw'r dosbarth yn eich gofal.

Cred UCAC mai athrawon cymwysedig ddylai fod yn gofalu am ddosbarth ar bob adeg ac nad yw'n briodol i gynorthwywyr dosbarth addysgu dosbarth cyfan.

Wynebu colli swydd?

Os oes posibilrwydd y byddwch yn colli'ch swydd oherwydd sefyllfa ariannol yr ysgol, cofiwch y bydd swyddogion UCAC ar gael i'ch cefnogi a'ch cynghori trwy'r holl broses. Bydd UCAC yn sicrhau bod yr ysgol a'r AALl yn mynd trwy'r holl broses yn hollol deg, ac yn eich cynghori chi am y broses ac am faterion ymarferol e.e. paratoi ar gyfer awdit sgiliau'r ysgol.

Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Emrys Wynne
Is-Lywydd: Gwynn Griffith
Ysgrifennydd Cyffredinol: Elaine Edwards
Cyd-lynydd *Yr Athro*: Rebecca Williams

Nid yw cynnwys *Yr Athro* o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu i'r cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: Rebecca Williams, Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU Ffôn: 01970-639950
Ffacs: 01970-626765 E-bost: rebecca@athrawon.com www.athrawon.com

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am *Yr Athro*.

Rheolau Cyflenwi o Fedi 2009 Ymlaen

O fis Medi 2009 ymlaen, bydd yn ofynnol mai *anaml yn unig* y bydd athrawon yn gwneud gwaith cyflenwi yn lle cydweithwyr. Ond beth yw ystyr y cymal "*rarely cover*", sy'n ymddangos yn y S*chool Teachers' Pay and Conditions Document*?

Er nad yw'r ddogfen yn cyfeirio at nifer penodol o wersi ar gyfer athrawon unigol nac ar gyfer ysgol gyfan, mae'n cynnwys arweiniad ynghylch y disgwyliadau. Dyma ddehongliad UCAC o "gyflenwi'n anaml", yn seiliedig ar eiriad y *School Teachers' Pay and Conditions Document 2008,* sy'n ddogfen statudol:

1. **Yn gyffredinol:**

- Ni ddylid defnyddio athro yn yr ysgol ar gyfer unrhyw waith cyflenwi os oes modd gwneud trefniadau eraill "*…until all other reasonable means of providing cover have been exhausted.*" (tudalen 203, paragraff 48)
- Nid yw'n gyfreithlon i ddefnyddio athro i gyflenwi yn ystod ei gyfnod Cynllunio, Paratoi ac Asesu: "*The guaranteed PPA time of teachers at a school forms part of the legal conditions of employment and cannot be used for cover.*" (tudalen 204, paragraff 53)
- Mae rhannu dosbarth rhwng dosbarthiadau athrawon eraill yn cyfrif fel gwaith cyflenwi.

2. **Cyflenwi mewn achos o salwch:**

- Ar y diwrnod cyntaf o salwch, dylai'r ysgol ystyried pob cam posibl a gwneud pob ymdrech i sicrhau nad oes angen i athro yn yr ysgol gyflenwi. Os nad yw'n bosibl trefnu cyflenwi ar gyfer y wers / gwersi cyntaf, dylai fod yn bosib gwneud trefniadau ar gyfer gweddill gwersi'r diwrnod.
- O'r ail ddiwrnod o salwch ymlaen, ni ddylai athro yn yr ysgol gyflenwi.
- Dylid trefnu athrawon cyflenwi addas ar gyfer salwch hirdymor.

3. **Absenoldebau hirdymor eraill:**

- Dylid trefnu athrawon cyflenwi addas, ymlaen llaw, ar gyfer absenoldebau hirdymor megis mamolaeth, secondiad, ac ati.

4. **Ymweliadau addysgiadol a digwyddiadau sydd wedi eu trefnu ymlaen llaw:**

- Ni ddylai fod disgwyl i athro yn yr ysgol gyflenwi ar yr adegau hyn, gan eu bod wedi'u trefnu ymlaen llaw.

Wrth groesawu'r lleihad mewn gwaith cyflenwi i gydweithwyr, rhaid pwysleisio nad yw UCAC yn cefnogi'r defnydd o gynorthwywyr dosbarth i gyflenwi yn lle athrawon.

Mae UCAC, hefyd, yn ymwybodol o'r gost ariannol i ysgolion o dalu am gyflenwi. Mewn ymateb i hyn, rydym yn parhau i alw ar Lywodraeth y Cynulliad i ariannu ysgolion mewn ffordd sydd yn cydnabod gofynion y cytundeb llwyth gwaith – a byddwn yn parhau i bwyso am ariannu teg a digonol. Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw wybodaeth am gostau cyflenwi fel tystiolaeth bellach i'w defnyddio pan fyddwn yn trafod â'r Llywodraeth.

Ymateb i'r holiaduron

Diolch i chi am lenwi a dychwelyd holiadur UCAC am faterion yn ymwneud â thâl. Os nad ydych wedi gyrru'r holiadur yn ôl eto mae croeso i chi wneud hynny. Mae gan UCAC ddiddordeb mewn derbyn eich sylwadau.

Daeth llawer o faterion pwysig i'r golwg yn eich ymatebion a bydd modd i UCAC wneud defnydd o'r wybodaeth fel tystiolaeth i ddadlau am faterion tâl, gan gynnwys taliadau CAD (*TLRs*). Cred 93% ohonoch wnaeth ymateb nad yw'r codiad tâl presennol yn ddigon. Roedd ymateb cymysg i daliadau CAD, ond roedd llawer yn nodi bod problemau ariannol ysgolion yn ei gwneud hi'n anodd rhoi taliadau CAD. O ran ffactorau sy'n effeithio ar werth eich tâl, nodwyd materion megis: colli lwfans Rhagfyr 2008, costau gofal plant, pris tanwydd, a'r gost o ad-dalu benthyciad myfyrwyr.

Roedd eich sylwadau'n werthfawr iawn - ac yn aml yn peri pryder i ni fel undeb. Mae'n fater o bryder bod cynifer wedi nodi eich bod yn gorfod mynd trwy broses arall o ailstrwythuro neu'n wynebu diswyddiadau posib oherwydd bod sefyllfa ariannol yr ysgol wedi gwaethygu. Yn ogystal, roedd yn fater o bryder nad oedd rhai yn ymwybodol o'u hawliau. Cofiwch ddarllen *Yr Athro*, ewch i wefan UCAC neu cysylltwch ag UCAC os oes gennych gwestiynau am unrhyw fater yn ymwneud â'ch swydd. Peidiwch â bod ar eich colled oherwydd i chi beidio gofyn cwestiwn.

Byddwn yn falch, hefyd, o glywed gan unrhyw un sydd â phryderon am eich sefyllfa bresennol er mwyn i ni allu'ch cynghori a hefyd i dderbyn tystiolaeth ychwanegol. Byddwn yn croesawu derbyn manylion am eich profiadau trwy e-bost neu alwad ffôn - ac wrth gwrs byddai unrhyw ddefnydd a wneir o'r wybodaeth gan UCAC yn sicrhau eich cyfrinachedd.

- Ydych chi wedi gweld newid yn ddiweddar sy'n gwaethygu'ch tâl neu'ch amodau gwaith?
- Ydych chi'n athro digyswllt ac yn wynebu ansicrwydd ynghylch eich swydd?
- Ydych chi'n athro anghenion arbennig, ac yn poeni am newidiadau i'r gwasanaeth ac i'ch tâl ac amodau gwaith?
- Ydych chi'n wynebu colli taliad CAD yn fuan ar ôl dechrau derbyn y tâl?

Cofiwch gysylltu beth bynnag yw'r gofid neu'r broblem.

Athrawon, gan gynnwys athrawon cyflenwi – ewch am y trothwy!

Er mwyn gwneud cais i groesi'r trothwy yn Rownd 9 (2008-2009) mae'n rhaid eich bod:

- yn cael eich cyflogi dan delerau'r *School Teachers' Pay and Conditions Document 2008* ac yn meddu ar statws athro cymwysedig
- ar bwynt 6 o'r brif raddfa gyflogaeth ar gyfer athrawon cymwysedig
- yn cyflwyno cais cyn Awst 31 2009

Os oeddech yn gymwys i wneud cais cyn 2008/09, ond heb wneud, dyma'r cyfle olaf i chi wneud cais am ad-daliad.

Gweler taflen wybodaeth UCAC: Y Trothwy Perfformiad Rownd 9. Am ffurflen gais a manylion pellach ewch i: www.teachernet.gov.uk/management/payandperformance/threshold

Beti a'i Phobl

Cafodd swyddogion a Llywydd UCAC gyfle arbennig iawn tymor diwethaf – i gael treulio diwrnod yng nghwmni'r ddarlledwraig uchel ei pharch, Beti George.

Daeth Beti George ac Elin Wyn (cyn-gynhyrchydd i'r BBC) i Ben Roc i roi diwrnod o hyfforddiant ar sut i wneud cyfweliadau â'r cyfryngau.

Gyda chymorth deheuig Andy Freeman, cafodd pob un yn ei dro wynebu holi ffyrnig gan Beti o flaen y camera, a chael y profiad annifyr o wylio'r cwbl ar y sgrin er mwyn beirniadu'r perfformiad!

Roedd y diwrnod o fudd mawr i bawb, a gobeithio y byddwch yn gweld gwerth yr hyfforddiant pan fydd swyddogion UCAC yn ymddangos yn y cyfryngau.

O'r chwith i'r dde: Beti George, Eryl Owain, Elaine Edwards, Andy Freeman, Emrys Wynne, Rebecca Williams ac Elin Wyn.

Cyfarfod Penaethiaid Uwchradd UCAC – Mesur Dysgu a Sgiliau

Ychydig ddiwrnodau cyn y gwyliau Nadolig, cynhaliwyd cyfarfod yn Llety Parc, Aberystwyth i drafod y Mesur Dysgu a Sgiliau. Daeth criw sylweddol o benaethiaid uwchradd UCAC ynghyd i gwrdd â Mark Leighfield (Pennaeth Coleg Dewi Sant, Caerdydd), Gwilym Hughes (Pennaeth Ysgol Eifionydd, Porthmadog) a Rebecca Olney (Llywodraeth y Cynulliad). Mae Mark Leighfield a Gwilym Hughes, ill dau, wedi'u secondio i Lywodraeth y Cynulliad i weithio ar Lwybrau Dysgu 14-19 a'r Mesur Dysgu a Sgiliau.

Cafwyd cyfle i glywed yn uniongyrchol ganddynt am y datblygiadau diweddaraf yn y maes, ac i holi a herio am y datblygiadau sydd i ddod. Pwyslais y cyfarfod oedd sut y bydd y sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn llwyddo i ymateb i'r her o estyn opsiynau i ddysgwyr 14-19 mlwydd oed.

Mae'r Mesur Dysgu a Sgiliau ar ei hynt drwy'r Cynulliad ar hyn o bryd. Un o brif bryderon UCAC yw'r ffaith nad yw'r Mesur yn sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae swyddogion UCAC yn ymgyrchu'n galed i sicrhau y caiff gwelliant ei gynnig i'r Mesur a fydd yn datrys y broblem hon ac yn osgoi gwneud niwed gwirioneddol i addysg cyfrwng Cymraeg.

Adnoddau Digidol newydd gan CBAC

Mae CBAC, mewn cydweithrediad agos ag athrawon, wedi paratoi llu o adnoddau digidol newydd. Y diweddaraf ohonynt yw 'E-lyfr y Gyfraith' i gyd-fynd â manyleb Y Gyfraith UG. Bydd y llyfr electronig hwn ar gael yn rhad ac am ddim yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn ddiweddar, cwblhawyd y gwaith o gynhyrchu canllawiau digidol, hawdd eu defnyddio, i athrawon i gyd-fynd â manylebau TAG.

Ymysg prosiectau eraill diweddar CBAC ceir:

- Llawlyfr Bioleg a Bioleg Ddynol UG i fyfyrwyr
- Cyflwyniadau rhyngweithiol ar gyfer manyleb TAG Bioleg
- Cyflwyniadau TGAU Gwyddoniaeth a Gwyddoniaeth Ychwanegol
- Dramâu Cymraeg newydd ar gyfer manyleb TAG
- CD-ROM er mwyn hyrwyddo manylebau TGAU newydd Daearyddiaeth
- Set o adnoddau leithoedd Tramor Modern UG
- Datblygu gwefan Astudio'r Cyfryngau ac Astudiaethau Ffilm
- Canllawiau digidol i gyd-fynd â manylebau TAG

Rhan allweddol o lwyddiant y datblygiadau hyn yw cydweithio agos ag athrawon sy'n awduro deunydd ac yn chwarae rôl weithredol yn y broses o'u haddasu'n adnoddau rhyngweithiol.

Mae'r adnoddau oll yn ymddangos ar wefan CBAC: http://adaddysgol.cbac.co.uk

Bydd y gwaith o ddatblygu adnoddau newydd a chyffrous ar draws amrediad y manylebau yn parhau yn 2009.

Calendr bach UCAC

Tynnwyd ein sylw gan aelod craff at gamgymeriad yng nghalendr bach UCAC (a amgaewyd gyda rhifyn diwethaf *Yr Athro*), felly rhag ofn eich bod ar fin trefnu'ch gwyliau haf, dyma dynnu'ch sylw chithau hefyd at y gwall.

Mae'r calendr yn dangos bod mis Gorffennaf yn dechrau ar ddydd Iau – mae hyn yn anghywir. Mae Gorffennaf 1af ar ddydd Mercher ac – yn naturiol – mae gweddill y mis yn dilyn o hynny!

Mae gweddill y calendr yn gywir. Ymddiheurwn yn fawr am y camgymeriad.